OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2299 (Cy.229)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd (Prysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*5 Medi 2003*
Yn dod i rym - -	*6 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Teitl a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Prysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 6 Medi 2003.

Diwygiad i Reoliadau Bwyd (Prysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002

2.—(1) Caiff paragraff (1) o reoliad 2 (dehongli) o Reoliadau Bwyd (Prysgnau o Tsieina) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**3**) ei ddiwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle'r diffiniad o "the Commission Decision" rhoddir y diffiniad canlynol—

> ""the Commission Decision" means Commission Decision 2002/79/EC imposing special conditions on the import of peanuts and certain products derived from peanuts originating in or consigned from China(**4**)) as amended by Commission Decision 2002/233/EC(**5**), Commission Decision 2002/678/EC(**6**)) and Commission Decision 2003/550/EC(**7**);"

(**1**) O.S.1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2002/2295 (Cy.224).
(**4**) OJ Rhif L34, 5.2.2002, t.21.
(**5**) OJ Rhif L78, 21.3.2002, t.14.
(**6**) OJ Rhif L229, 27.8.2002, t.33.
(**7**) OJ Rhif L187, 22.7.2003, t.39.